# Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

## Rhaglen Dysgu a Datblygu: Haen 2

Modiwlau mewnol yw'r modiwlau a gynigir yn Haen 2. Cyfuniad o'r modiwlau hyn sy'n cymhwyso unigolion i fod yn bregethwyr cynorthwyol cydnabyddedig, ac yn hyfforddi unigolion ar gyfer cyflawni gweinidogaeth ordeiniedig.

Gall unrhyw un ddilyn y modiwlau hyn. Er mwyn cwblhau modiwl yn gyflawn, yn ogystal â dilyn y darlithoedd bydd angen cwblhau unrhyw waith cwrs neu aseiniad cysylltiedig, a hynny i safon disgwyliedig y tiwtor. Yna, bydd y Panel Dysgu a Datblygu yn cadarnhau bod y gofynion wedi eu cyrraedd cyn cyflwyno tystysgrif cwblhau modiwl. Gweithredir sustem bancio modiwlau, a hynny er mwyn i unigolion gymhwyso ar gyfer gwahanol agweddau o weinidogaeth heb orfod ailgychwyn y broses os ydynt eisoes wedi cwblhau modiwl a chyrraedd y safon.

### 1. Addoli a Phregethu

Bydd y sawl fydd yn cwblhau'r modiwl yn ymwybodol o bwysigrwydd addoliad, a'r amrywiol fathau o addoli. Yn ogystal â hyn, byddant yn gallu bwrw ymlaen i lunio amrywiaeth o oedfaon ar wahanol achlysuron, gan sicrhau fod yr hanfodion ar gyfer addoliad wedi eu cynnwys.

**Cydlynydd Modiwl:** Parchedig Carwyn Siddall
**Athro:** Parchedig Carwyn Siddall
**Hyd y Modiwl:** 8 sesiwn awr o hyd

### 2. Y Beibl

Dyma gyfle i gael dealltwriaeth ddyfnach o agweddau gwahanol o gynnwys y Beibl, ac astudio themâu penodol ohono, a'u pwysigrwydd i'r ffydd. Rhennir y modiwl i ddwy ran:

**Cydlynydd Modiwl:** Parchedig Carwyn Siddall

**i. Dehongli'r Hen Destament**
**Athro:** Dr Eryl Wynne Davies
**Hyd y Modiwl:** 6 sesiwn awr o hyd

**ii. Dehongli'r Testament Newydd**
**Athro:** Yr Athro Catrin Haf Williams
**Hyd y Modiwl:** 6 sesiwn awr o hyd

## 3. Bugeilio

Bydd y sawl fydd yn cwblhau'r modiwl yn gwerthfawrogi pwysigrwydd bugeilio fel rhan greiddiol o weinidogaeth yr eglwys, gan ystyried gwahanol ffyrdd o fugeilio, a'r ymwybyddiaeth i adnabod arwyddion sylfaenol wrth fugeilio megis unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu.

**Cydlynydd Modiwl:** Parchedig Carwyn Siddall
**Athro:** Parchedig Carwyn Siddall
**Hyd y modiwl:** 8 sesiwn awr o hyd

## 4. Y Sacramentau

Cyfle i edrych ar y ddwy sacrament a gydnabyddwn fel Annibynwyr, sef Sacrament y Bedydd a Sacrament Swper yr Arglwydd. Edrychir ar eu sylfeini beiblaidd, ynghyd â'r agweddau ymarferol sydd ynghlwm â'u gweinyddu.

**Cydlynydd Modiwl:** Parchedig Carwyn Siddall
**Athro:** Parchedig Carwyn Siddall
**Hyd y modiwl:** 6 sesiwn awr o hyd, a diwrnod o hyfforddiant wyneb yn wyneb yn Aberystwyth

## 5. Cenhadaeth a Datblygiad yr Eglwys

Cyfle i archwilio tair gwedd i'r eglwys Gristnogol, gan fanylu ar gyfnodau a datblygiadau penodol yn ei hanes. Ceir cyfle i ddysgu a gwerthfawrogi'r amrywiol draddodiadau sy'n bodoli, ac ystyried ffyrdd amrywiol i bontio rhwng enwadau a thraddodiadau, ynghyd ag ystyried sut i fod yn eglwysi cynhwysol yn yr 21G.

**Cydlynydd Modiwl:** Parchedig Beti-Wyn James

**i. Yr Eglwys Fore**
**Athro:** Parchedig Ddr Guto Prys ap Gwynfor
**Hyd y Modiwl:** 3 sesiwn awr o hyd

**ii. Y Diwygiadau**
**Athro:** Parchedig Ddr Alun Tudur
**Hyd y Modiwl:** 3 sesiwn awr o hyd

**iii. Yr Eglwys heddiw**
**Athro:** Parchedig Owain Llŷr Evans
**Hyd y Modiwl:** 3 sesiwn awr o hyd

## 6. Rhan o'r Byd

Edrychir ar berthynas Cristnogaeth â gwahanol agweddau o'n cymdeithas a'n byd. Bydd y modiwl, dan arweiniad arbenigwyr yn y meysydd penodol, ond sydd hefyd yn arddel y ffydd Gristnogol, yn cynnig cyfle i archwilio perthynas y ffydd â'u meysydd. Drwy wneud hynny, ceir cyfle i ystyried dulliau i bontio gyda'r safbwyntiau amrywiol a geir o fewn y meysydd, i barchu unrhyw wahaniaeth barn, ond gan lynu'n driw i'r ffydd. Enghreifftiau o'r pynciau a drafodir yw 'Cristnogaeth a Gwyddoniaeth', 'Cristnogaeth a Gwleidyddiaeth', a 'Cristnogaeth a Newid Hinsawdd'.

**Cydlynydd Modiwl:** Mr Ifan Alun Puw
**Athro:** Arbenigwyr mewn gwahanol feysydd
**Hyd y modiwl:** 8 sesiwn awr o hyd

## 7. Amdanom Ni

Bydd y sawl fydd yn cwblhau'r modiwl yn ymwybodol o wreiddiau'r traddodiad Annibynnol yng Nghymru ac yn abl i roi esboniad o'i ddaliadau, yn arbennig ynglŷn â natur eglwys Annibynnol a'i pherthynas ag eglwysi eraill. Bydd hefyd yn deall y strwythur sy'n cysylltu eglwysi Annibynnol Cymru â'i gilydd ac yn eu galluogi i gydweithio'n lleol, ac yn ehangach, gydag amrywiol draddodiadau eglwysig eraill.

**Cydlynydd Modiwl:** Parchedig Ddr Geraint Tudur
**Athro:** Amrywiol bobl
**Hyd y modiwl:** 6 sesiwn awr o hyd

## 8. Ymarferol

Cyfle i ddaearu'r hyn a ddysgwyd mewn ffyrdd ymarferol drwy gwblhau cyfnod ar leoliad. Bydd hwn yn gyfnod o dri mis, a'r lleoliad(au) i'w cytuno mewn trafodaeth â'r Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu yn ddibynnol ar gyd-destun eich galwad. Gellir archwilio amrywiol gyd-destunau gweinidogaethol, er enghraifft mewn cyd-destun eglwys neu gyd-destun caplaniaeth, a gellir cyfuno mwy nag un gwedd o'r weinidogaeth.

**Cydlynydd Modiwl:** Parchedig Carwyn Siddall